"A"

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun 13eg Tachwedd, 2023**, yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.30 p.m. hyd 8.20 p.m.
Presennol: Y Cynghorydd Siôn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Michael Strain (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffiths

## 70. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

**Cyn dechrau'r trafodaethau esynnodd** yr Is-Gadeirydd gymdeimlad y Cyngor â'r Cynghorydd Siôn Williams ar golli ei dad, Y Cynghorydd Glenys Williams ar golli ei brawd yng nghyfraith a'r Cynghorydd Gareth Williams ar golli ei ewythr.

## 71. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

## 72. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 9fed HYDREF, 2023

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 9fed Hydref, 2023, gyda'r ychwanegiad a ganlyn:

**Eitem 62 – Awdurdod i Dalu**

**Rhoddwyd awdurdod i dalu'r anfonebau a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Huws Gray am slabiau o dan y potiau blodau | £35.04 (siec 200801) |
| Canolfan Arddio Tyddyn Sachau – blodau | £200.00 (siec 200802) |
| Greenbarnes am hysbysfyrddau | £1,090.36 (siec 200803) |

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Michael Strain ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts gyda phawb yn cytuno).

**Mater yn codi**

**Eitem 59 Cadarnhau Cofnodion (ch) Eitem (23)0 Materion Ffyrdd a Llwybrau (cymal (e) – lloches bws a.y.**

**Diolchodd** y Cadeirydd i'r rhai oedd wedi plannu'r potiau blodau yn y gwahanol leoliadau.

Gofynnodd y Clarc am arweiniad ynglyn a hysbysu'r Cwmni Yswiriant am leoliadau'r potiau blodau ac hefyd cysylltu a Chyngor Gwynedd unwaith yn rhagor gan na dderbyniwyd unrhyw ymateb i'r cais yn ôl ym mis Mehefin am gael eu gosod.

Yn y cyswllt yma, hybysodd y Clarc fod yr archeb am yr hysbysfyrddau wedi ei anfon ymlaen at Greenbarnes ac fod disgwyl iddynt gyrraedd yn ystod y dyddiau nesaf. Gofynnwyd pwy oedd yn gyfrifol am eu gosod.

**Penderfynwyd**

(a) **Potiau blodau** – hysbysu'r Cwmni Yswiriant fod y Cyngor wedi gosod potiau blodau yn y gwahanol leoliadau.

(b) **Hysbysfyrddau** – addawodd Y Cynghorwyr Dylan Parry Jones, Glyn Roberts ag Iwan James Williams osod yr hysbysfyrddau yn y tri lleoliad.

73. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Nid oedd unrhyw gais i law.

74. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Penderfynwyd**

**(a)** anfon y materion a ganlyn ymlaen i'r Adran Priffyrdd:
y ffordd ger Olgra, Penygroeslon, yn culhau – gofyn am gael barbio'r tyfiant yn ôl.
Angen barbio y ffordd o Bengopa i lawr i bentref Bryncroes
Brigyn yn gogwyddo i'r ffordd rhwng Pedair Croeslon a phenlon Ty Ruttan, Bryncroes
Dwr yn llifo i'r ffordd o gaeau Bodnithoedd (y tro ar y ffordd o Dai Cyngor Sarn Mellteyrn i fyny am Bodnithoedd).

**(b)** Yr angen i archwilio'r bocsys graeanu cyn y tywydd garw. Addawodd Y Cynghorydd Siôn Williams archwilio'r bocsys yn Sarn a'r Cynghorydd Dylan Parry Jones y bocsys ger chwarel Nanhoron a Lôn Goch, Botwnnog.

**(c)** Gofyn eto i Mr. J.A. Pozzi am gael torri'r tyfiant o amgylch lloches bws sydd o flaen Tai'r Cyngor yn Sarn. (Addawodd Y Cynghorydd Dylan Parry Jones y byddai'n cael gair âg ef).

**Yn y cyswllt hwn:**

**(1) Derbyniwyd** ymateb Rheolwr Traffig a Phrosiectau Cyngor Gwynedd ynglyn a'r cyfyngiadau cyflymder yn ardal Penygroeslon fel a ganlyn:

"Diolch yn fawr i chwi am rannu gwybodaeth ganlynol gyda ni. Mae gwasanaeth wedi bod yn gwneud dipyn o waith yn ddiweddar yn addasu'r cyfyngiadau cyflymder mewn ardaloedd trefol fel rhan o'r fenter 20mya. Er bod y cyfyngiadau hynny wedi ei gyflwyno ers dros fis pellach, mae gwaith o osod a thynnu arwyddion a gwaith monitro'r sgil effeithiau newidiadau yn parhau.

Yn ddiweddar, rydym wedi derbyn gwybodaeth y byddai Llywodraeth Cymru yn ail cyhoeddi eu canllawiau ar gyfer gosod cyfyngiadau cyflymder ar y rhwydwaith yn Fis Ebrill 2024. Byddai cyhoeddiad hynny yn ein galluogi i ail edrych ar y cyfyngiadau cyflymder yn yr ardal. Dwi siŵr y byddai swyddogion yn cysylltu â chwi pam bydd yr adolygiad hynny yn cychwyn.

Hoffwn hefyd eich hysbysu bod y gwasanaeth wedi comisiynu adroddiad i edrych ar y groesffordd ger Mynedfa Wynnstay yn yr ardal. Yn ystod y cyfarfod diweddar cytunwyd y byddai cwmni Wynnstay yn edrych ar gynllun maes parcio ar wahân i'r cynllun mae'r gwasanaeth hwn yn edrych arno. Oherwydd sefyllfa ariannol y Cyngor, nid rwyf yn rhagweld y byddai'n bosib i gyngor gwneud penderfyniadau i ariannu cynlluniau o'i fath ac felly yn hollol ddibynnol ar y gallu i ddenu arian o ffynonellau ariannol allanol. Mae hynny yn golygu does gennym ddim rheolaeth dros wneud penderfyniadau ar ba gynlluniau sy'n cael ei ariannu ar unrhyw adeg ac felly byddai cydlynu cynlluniau gyda sector preifat yn anodd iawn.

Er hynny, mae'r gwaith rhagbaratoi wedi cychwyn ac felly dwi'n siŵr y byddwn mewn sefyllfa i rannu gwybodaeth ganlynol gyda chwi yn fuan."

**Penderfynwyd** cadw golwg ar y sefyllfa.

(2) **Derbyniwyd** ymateb gan berchennog Tan y Ffordd, Penygroeslon, ynglyn a'r tyfiant sydd ar ei glawdd yn creu anhawster i gerbydau sydd eisiau cael mynediad i'r ffordd yn Groeslon Siop, Lwyd, Penygroeslon.

**Penderfynwyd** gofyn i'r Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd am i'r tyfiant ar glawdd Tan y Ffordd, Penygroeslon gael ei dorri'n ôl, gan anfon copi o'i atebiad i'r Cyngor. **(Nodyn pellach –** dywedodd y perchennog fod ei frawd wedi torri'r tyfiant – y wybodaeth yma i law yn dilyn y Cyngor).

75. **AWDURDOD I DALU**

Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.

76. **PENTREF PWYLIAID PENRHOS**

**Cyflwynwyd** e-bost gan Emma Hanson, Rheolwr Prosiect Marchnata, Clwyd Alyn ynglyn a'r datblygiad uchod. (Copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen).
**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

77. **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL GWYNEDD (2024-2039) CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT**

**Cyflwynwyd** llythyr Rheolwr Gwasanaethau Polisi Tirwedd a Natur, Cyngor Gwynedd yn nodi gwefannau lle gellir cael mwy o wybodaeth ac hefyd lenwi holidau arlein. (Copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen).
**Penderfynwyd** nodi derbyn y wybodaeth.

78. **GRANT CYNLLUNIAU BWYD A CHROESO CYNNES**

**Nodwyd** fod copi o e-bost Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau wedi ei anfon, ar gais y Cadeirydd, i bob aelod ar 11eg Tachwedd, 2023. Yn e-bost y Clarc i'r aelodau dywedwyd "Derbyniais yr e-bost isod gan Alys brynhawn ddoe ac wedi cael arweiniad gan y Cadeirydd 'rwyf yn ei anfon ymlaen i chwi er ceisio cael eich barn i weld a oes diddordeb yn y gymuned I'r math yma o brosiect.
Os oes diddordeb, gallwn wedyn eu e-bostio i ddatgan diddordeb a'u hysbysu y bydd y Cyngor yn cyfarfod ddechrau mis Tachwedd i drafod y cynllun yn fwy manwl a chyflwyno cais am arian; neu fell arall os yr ydych o'r farn fod hwn yn fater brys gallwn alw cyfarfod arbennig o'r Cyngor i'w drafod."
Adroddodd y Clarc nad oedd wedi derbyn unrhyw ymateb i'r e-bost felly gadwyd y mater ar y bwrdd.

79. **CYFEILLION LLYN**

**Cyflwynwyd** e-bost dderbyniwyd ddiwrnod y Cyngor gan Sian Parri Ysgrifennydd Cyfeillion Llŷn. Yn gyntaf sioniodd am:

**(a) Y datblygiad ar Cae Capel, Botwnnog fel a ganlyn:**

"Anfonaf atoch ynglŷn â'ch pryderon am ddatblygiad yn 'Cae Capel' Botwnnog, gan awgrymu rhai camau y byddai'n bosib i chi eu cymryd.
Mae'n werth cofio fod y cae sydd dan sylw eisoes wedi ei neilltuo, gan Gyngor Gwynedd i godi 24 o dai. Credaf fod barn leol yn gytûn y dylai'r Cynllun Datblygu ganiatáu gwasgaru tai i gael eu codi yn lle mae ein pobl ifanc eisiau byw, nid canoli ym Motwnnog. Mae'n rhaid sicrhau y bydd y Cynllun Datblygu nesaf, y mae'r Cyngor yn cychwyn ymgynghori arno rŵan, yn adlewyrchu ein barn.
Ond yn y cyfamser, rwyf wedi deall fod modd ffurfio cytundeb 'Polisi Gosodiadau a Gwerthiannau Lleol'. Cytundeb fyddai hwn rhwng Cyngor Cymuned Botwnnog, Cyngor Gwynedd a'r datblygwr Meurig Williams, a fyddai'n rhoi rheolaeth leol dros y datblygiad er mwyn gwarchod buddiannau'r gymuned gan sicrhau gwarchod y Gymraeg, yn unol â Nod Strategol Cyngor Cymuned Botwnnog.
Y cam cyntaf fyddai i Gyngor Cymuned Botwnnog anfon llythyr at Gyngor Gwynedd a'r datblygwr Meurig Williams yn gofyn am agor trafodaeth efo'r bwriad o sefydlu 'Polisi Gosodiadau a Gwerthiannau Lleol'. Gellir ystyried posibiliadau fel defnydd cymysg o dai rhent a thai i'w gwerthu ac ella tai un

llawr addas i un neu ddau berson. Gellid ystyried gwireddu'r datblygiad dros gyfnodau o amser mewn dau ran efallai, gan asesu'r effaith ar y gymuned a'r Gymraeg drwy gydol y datblygiad. Gellir cytuno i roi rheolaeth i'r Cyngor Cymuned dros recriwtio tenantiaid fydd yn siaradwyr Cymraeg lleol, drwy ddefnyddio eu gwybodaeth a chyswllt lleol.
Byddai gwneud cytundeb 'Polisi Gosodiadau a Gwerthiannau Lleol' fel hyn yn cyd-fynd a nod Llywodraeth Cymru o 'warchod y Gymraeg a'i helpu i ffynnu' yn yr ardaloedd lle mae nifer uchel o ail gartrefi. Byddai'n gynsail cadarnhaol i ardaloedd eraill ac yn cynorthwyo'r Llywodraeth efo 'Cymraeg 2050: Filiwn o siaradwyr', 'Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg' a 'Cynllun Peilot Dwyfor'
Mi fyddaf ar gael i helpu a hwyluso ffurfio cytundeb a threfnu cyngor arbennigol a chyfreithiol pe bae angen."
Tynnwyd sylw fod un neu ddau o gyfeiriadau anghywir yn llythyr Sian Parri sef:
Y bedwaredd linell – 21 o dai oedd y bwriad nid 24.
Unfed llinell ar ddeg – y datblygwr yw 'Cae Capel Cyf' nid Meurig Williams

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn gwybodaeth gan Ffred Fransis o Gymdeithas yr Iaith fod cyfarfod wedi ei drefnu ar safle'r datblygiad arfaethedig ym Motwnnog ddydd Gwener, 10fed Tachwedd, 2023. Gwahoddwyd oll o'r aelodau i'r cyfarfod. Dyma wybodaeth dderbyniodd y Cadeirydd gan Ffred Fransis:
"Gallaf gadarnhau'n awr y bydd Taith Deddf Eiddo Cymdeithas yr Iaith yn cyrraedd Cae Capel Botwnnog am 2pm brynhawn Gwener yma 10ed Tachwedd. Diolch am gytuno i ddod draw i gyfarfod a ni, fel cadeirydd y Cyngor Cymuned a braf fyddai gweld cynghorwyr eraill hefyd, i fynegi eich pryderon am y datblygiad arfaethedig o 18 o dai yn y cynllun i'w weithredu wedyn gan Adre. Fel chithau siwr o fod, dyn ni ddim yn gwadu nad oes adroddiad a rhyw ffurf o ymgynghoriad yn digwydd rwan cyn cyflwyno'n ffurfiol y cais am ganiatad cynllunio, ond dylsai wedi bod asesiad cymunedol cyflawn - mewn cydeweithrediad a'r Cyngor Cymuned - o anghenion tai lleol cyn bod dechrau ffurfio cynllun. Gall nifer yr unedau, eu natur (rhentu a/neu fforddiadwy i'w prynu), cyfnod datblygu ac amodau gosod o ran pobl leol a siaradwyr Cymraeg oll fod yn ffactorau perthnasol yn dylsid wedi cytuno arnynt CYN llunio unrhyw gynllun. Bydd rhyw 4 neu 5 ohonom (yn cynnwys Sian Parri) yno i gyfarfod efo chi, a chaiff fersiwn dalfyredig o'r holl gyfweliadau yn y gwahanol safleoedd ei dangos yn gyheddus yn y Gynhadledd ar Dai ar ddiwedd yr wythnos ym Mae Caerdydd Ddydd Iau 16eg Tachwedd.. Mae ym mhen arall y wlad, ond mae croeso i unrhyw rai ohonoch gofrestru hefyd am y gynhadledd lle byddai cyfle i chi esbionio'r sefyllfs i gynulleidfa o wleidyddion, ymgyrchwyr ac arbenigwyr yn y maes.
Diolch eto am eich cydweithrediad, ac edrychwn ymlaen at eich gweld chi brynhawn Gwener."

Adroddodd y Cadeirydd iddo fynychu'r cyfarfod ac hefyd yn breesennol 'roedd Y Cynghorydd Gwenan Griffiths.

**Penderfynwyd** cefnogi Cyfeillion Llyn a chydlynnu gyda'r dau Gyngor lleol (Aberdaron a Thudweiliog) er rhoi datganiad ar y cyd.

**(b) Prosiect Perthyn**

Dyma lythyr Sian Parri, Ysgrifennydd Cyfeillion Llyn a chydlynydd Prosiect Perthyn Llyn:

"Mae Cyfeillion Llŷn yn rhan o'r 'Prosiect Perthyn' gan Lywodraeth Cymru. Pwrpas y 'Prosiect Perthyn', ydi darganfod ffyrdd i gynnal a chynyddu defnydd y Gymraeg yn y Cymunedau Cymraeg sydd gyda niferoedd uchel o ail gartrefi. Anfonaf atoch i ofyn am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad y *'Comisiwn Cymunedau Cymraeg'* yn ddiweddar ac mae'n cyfeirio at y posibilrwydd o ddynodi rhai llefydd yn *'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol (dwysedd uchel)*, lle gellid amrywio polisi cynllunio er mwyn gwarchod a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Aberdaron, Tudweiliog a Botwnnog ydi'r tair ward sydd gyda'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg ac sydd hefyd gyda'r nifer uchaf o ail gartrefi, drwy Gymru gyfan. Gweler mapiau Llywodraeth Cymru sy'n cadarnhau hyn.

Felly gofynnwn i chi dderbyn y dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a'i gofnodi fel a ganlyn

–

*'Ar sail tystiolaeth Llywodraeth Cymru mae Cyngor Cymuned ______ yn dynodi ardal Cyngor Cymuned ______- yn 'ardal o arwyddocâd ieithyddol (dwysedd uchel)' lle dylid blaenoriaethu 'gwarchod a chynyddu defnydd o'r Gymraeg', yn unol a nod Cyngor Cymuned ________ a Llywodraeth Cymru.'*

Mae dirywiad yr iaith yn digwydd yn gynt yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'n amlwg nad ydi Cynlluniau Datblygu, Cyngor Gwynedd dros y degawdau diwethaf wedi llwyddo i warchod ein Cymunedau Cymraeg. Dylai polisïau a chynlluniau lleol Cyngor Gwynedd yn y dyfodol, sicrhau cynydd defnydd y Gymraeg. Er mwyn cryfhau ein llais yn lleol i sicrhau hyn rydym yn gwahodd eich Cyngor Cymuned i ddŵad yn aelod o Gyfeillion Llŷn.

Os y byddwch yn ymaelodi a fyddai gennych ddiddordeb mewn cyfarfod yn yr un lleoliad y tro nesaf ar Ragfyr 11, er mwyn dwad at ein gilydd wedyn efo aelodau Cyfeillion Llŷn i gael paned a mins pei i gloi 2023?"

**Penderfynwyd** ymuno a'r Cyfeillion a datgan fel a ganlyn:

*Ar sail tystiolaeth Llywodraeth Cymru mae Cyngor Cymuned Botwnnog yn dynodi ardal Cyngor Cymuned Botwnnog yn 'ardal o arwyddocâd ieithyddol (dwysedd uchel)' lle dylid blaenoriaethu 'gwarchod a chynyddu defnydd o'r Gymraeg', yn unol a nod Cyngor Cymuned Botwnog a Llywodraeth Cymru.*

80. **GOLEUADAU NADOLIG**

**Derbyniwyd** cais am gael coeden/goleuadau Nadolig ym mhentrefi'r gymuned. Gan ei bod yn rhy hwyr am eleni i baratoi ar gyfer hyn **penderfynwyd** gwneud ymholiadau âg Un Llais Cymru beth sydd ei angen fod popeth yn ei le, yswiriant a.y.